| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ionawr 9, 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Reolwr, Gwasanaethau Busnes** |
| **Teitl:** | **Gwerthusiad ac Adolygiad Arolygiad Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2011-12** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1 Mae'r adroddiad yn mynegi'r materion allweddol sy'n codi o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych ar gyfer 2011-12. Mae copi o'r gwerthusiad llawn yn atodol fel Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1 Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys meysydd o gynnydd, meysydd i'w gwella a risg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bydd Rheolwr Ardal Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn bresennol yn y Pwyllgor. Gofynnir i aelodau ystyried y gwerthusiad a cheisio persbectif AGGCC ar berfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Bob blwyddyn bydd AGGCC yn ymgymryd â gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol. Bydd y gwerthusiad yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth sy'n dod o adroddiad y Cyfarwyddwyr eu hunain ar y perfformiad a'r cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol yn ardal eu hawdurdod lleol, gwaith rheoleiddiol AGGCC a barn archwilwyr ac arolygwyr eraill. Fe gymedrolir y gwerthusiad i sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur.

4.2 I grynhoi, mae gwerthusiad gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych wedi amlygu rhaglenni uchelgeisiol o newid mewn gwasanaeth gydag arweinyddiaeth glir a threfniadau rheoli perfformiad yn eu lle i gynorthwyo eu cyflenwad. Mae'r gwerthusiad yn bositif yn nodi cynnydd arwyddocaol gyda hyrwyddo annibyniaeth ar draws y Gwasanaeth drwy atal ac ymyriad cynnar.

4.3 Mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg o'r meysydd a nodwyd sy'n dangos cynnydd a meysydd a nodwyd i'w gwella yn y gwerthusiad perfformiad.

4.4 Mae meysydd a nodwyd i fod angen gwelliant yn unol â hunanasesiad y Cyfarwyddwr ac maen nhw wedi eu plannu o fewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer 2012-13. Fe gaiff y cynlluniau hyn eu monitro'n ffurfiol bob chwarter drwy Ffynnon.

4.5 Fe wnaethpwyd cynnydd sylweddol o ran meysydd a nodwyd i'w gwella yn yr adroddiad gwerthuso perfformiad. Ond, mae cynnydd wedi bod yn fwy cyfyngedig ar gyfer y camau canlynol:

- Cydgysylltiad rhwng ailalluogi a gwasanaethau gofal canolraddol a arweinir gan iechyd.
- Cyflymder cynnydd mewn mentrau ar y cyd a gytunwyd ag iechyd
- Gwella absenoldeb oherwydd salwch

4.6 Mae cysylltiadau ar lefel weithredol â BIPBC yn parhau i fod yn dda ac rydyn ni'n dal i fod â phresenoldeb yng nghyfarfodydd allweddol Grwpiau Rhaglen Glinigol a hefyd y Byrddau Rhanbarthol sy'n edrych ar weithredu Gofal Canolraddol a gwaith Ardaloedd. Fodd bynnag, mae yna anhawster cynyddol gydag ymgysylltu staff strategol yn lleol i fwrw mentrau ymlaen ar draws Cyngor Sir Ddinbych gyfan (gweler para 9.1 isod).

4.7 Rydyn ni wedi gweithio'n galed dros y 12 mis diwethaf i leihau absenoldeb oherwydd salwch gydag atebolrwydd rheolaeth cryfach, adrodd a monitro'n amlach ac yn gadarnach a menter beilot mewn cydweithrediad ag Iechyd Galwedigaethol ond mae absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn broblem yr ydyn ni'n parhau i ddelio â hi.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r archwiliad wedi darparu persbectif allanol o effeithiolrwydd y Cyngor yn diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r gwerthusiad hefyd yn darparu persbectif ar raglenni ar gyfer moderneiddio ac addasu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

## 6. Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae ymateb y Gwasanaeth i gyflenwi camau gwella/datblygu wedi ei integreiddio yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2012/2013. Mae cyflenwad y Cynllun hwn wedi ei osod o fewn cronfeydd presennol.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

7.1 Cynhelir cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd ag Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ag AGGCC sy'n helpu i hysbysu'r gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd gyda chyflenwi gwelliant.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Mae camau i ymateb i gamau gwella/datblygu wedi eu hintegreiddio yn y Cynllun Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2012/2013 ac nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol i gyflenwi.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Mae AGGCC wedi nodi'r gallu parhaus i ddylanwadu ar gynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd â BIPBC fel risg potensial. Mae'r risg yma wedi ei gynnwys fel risg ar y cofrestrau risg Gwasanaeth cysylltiedig. Mae gwaith yn digwydd ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru i fforio sut y gellir rheoli'r risg yma yn ogystal â cheisio cyfleoedd i gyfarfod ag uwch swyddogion gweithredol Iechyd ar lefel leol.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

10.1 Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1999 – dyletswydd Gwerth Gorau i sicrhau gwelliant parhaus.

10.2 Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970 – dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus y cyflenwad gwasanaeth.

10.3 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 – dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus y cyflenwad gwasanaeth.